# Adroddiad arolygu ar gyfer

**Tŷ Llarwydden**

**Llandyrnog**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cyhoeddi

**27 Chwefror 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Tŷ Llarwydden ym mhentref Llandyrnog sydd ger Dinbych. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu gofal a chymorth i hyd at chwe oedolyn dros 18 oed sydd ag anableddau dysgu.

Mental Health Care (Highfield Park) Limited sy'n berchen arno. Mae ganddynt unigolyn cyfrifol enwebedig i oruchwylio'r gwasanaeth. Ar hyn o bryd, nid oes rheolwr cofrestredig.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn penderfyniadau a dewisiadau am eu bywydau eu hunain ac yn cael eu hannog i wneud hynny. Maent yn elwa ar gael eu cefnogi gan staff sy'n eu hadnabod yn dda. Rhaid i gynlluniau gofal cael eu diweddaru i adlewyrchu anghenion pobl sy'n newid i sicrhau bod y staff yn darparu'r gefnogaeth gywir. Mae angen rhai gwelliannau i sicrhau bod y staff yn cyfathrebu ac yn gweithio'n dda fel tîm.

### 2. Gwelliannau

Dyma oedd yr ymweliad cyntaf ers i'r cartref gael ei gofrestru.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump yr adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion i wella'r gwasanaeth ymhellach. Mae hyn yn cynnwys diweddaru dogfennau cynlluniau gofal, staff yn gweithio fel tîm, goruchwyliadau a gwybodaeth am Ddiogelu rhag Colli Rhyddid.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae pobl yn elwa ar gael eu cefnogi gan staff sy'n gyfarwydd iddynt. Maent yn gallu gwneud dewisiadau ynghylch yr hyn maent am ei wneud a sut maent yn treulio'u hamser. Canfuom nad oedd pobl bob tro'n cael eu goruchwylio'n briodol i sicrhau eu diogelwch a'u llesiant.

### Ein canfyddiadau

Mae pobl yn gallu gwneud dewisiadau; gwrandewir arnynt a chânt eu trin ag urddas a pharch. Roedd cofnodion dyddiol a thrafodaethau â phobl a staff yn dangos bod ganddynt gyfleoedd i gymdeithasu ac roeddent yn mynychu clwb buzz ac yn mynd ar deithiau i dafarnau a theatrau. Yn ystod ein hymweliad, roedd awyrgylch cyfeillgar yn y cartref ac roedd pobl yn cael eu cefnogi i baratoi i fynd allan am brydiau bwyd neu i wneud eu siopa Nadolig. Roedd dau berson yn paratoi i fynd allan i gael pryd o fwyd gyda'i gilydd. Dywedodd un person wrthym ei fod yn hoffi gwisgo dillad smart. Gwelsom aelodau o'r staff yn eu cefnogi i wisgo persawr eillio a chafodd hwn ei gofnodi yn eu cynlluniau gofal. Gofynnodd y person arall i'r staff a oedd yn "edrych yn smart". Gwelsom fod y rhyngweithio'n gadarnhaol a bod y staff yn dangos amynedd a charedigrwydd tuag at bobl a'u bod yn gwrando arnynt. Dywedodd un person wrth aelod o staff "diolch cariad am y ddiod" a thrafod sut roedd yn teimlo'r diwrnod hwnnw. Cafodd preifatrwydd ac urddas eu hyrwyddo wrth i'r aelod o staff ei annog i ddychwelyd i'w ystafell am sgwrs fwy preifat i ffwrdd o ardal y lolfa gymunedol. Roedd person yn gwau yn y lolfa a dywedodd wrthym ei fod yn creu eitem o ddillad fel anrheg Nadolig i aelod o staff. Dywedodd y staff a'r dirprwy reolwr wrthym am berson a oedd yn dymuno mynd tramor ar ei wyliau. Roedd hyn wedi cael ei gyflawni a gwnaethom siarad â'r person am ei wyliau a gweld cofroddion o'i daith. Dywedodd aelod o staff a oedd wedi bod yn rhan o helpu i drefnu'r daith fod y person wedi dewis pa aelodau o staff yr oedd am iddynt gydag ef. Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn ymfalchïo yn eu hymddangosiad ac yn gallu gwneud pethau sy'n bwysig iddynt.

Mae pobl yn gallu gwneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal a datblygu eu sgiliau unigol. Roedd dau berson wedi cyffroi am fynd allan i gael pryd o fwyd a gwnaethant ddweud wrthym am y bwyd a'r ddiod roeddent yn mynd i'w harchebu yn y bwyty. Dywedodd pobl wrthym eu bod wedi tacluso eu hystafelloedd eu hunain ac yna gwnaethant eu dangos i ni a siarad am eu heiddo personol. Cawsant eu hannog gan y staff i fod mor annibynnol â phosib. Gofynnodd aelod o staff i rywun a oedd am gael diod boeth a gwnaeth ei annog i fynd i wneud y ddiod ei hun gyda chefnogaeth. Gwelsom yng nghynlluniau gofal dau berson ei bod yn bwysig iddynt fynd allan bob dydd i brynu papur newydd. Gwelsom un person yn dychwelyd i'r cartref gyda'i bapur newydd a gwnaeth eistedd i'w ddarllen yn yr ystafell fwyta gan sgwrsio â ni am yr hyn a oedd o ddiddordeb iddo. Dywedodd person arall wrthym ei fod yn mynd i'r archfarchnad leol i brynu ei bapur newydd ac i gael diod yn y prynhawn. Gwelsom ystafell un person ac roedd tystysgrifau yn cael eu harddangos ar y waliau i ddangos ei gyflawniadau. Mae potensial ac annibyniaeth pobl yn cael eu huchafu ac mae ganddynt ymdeimlad o gyflawniad.

Efallai nad yw pobl mor ddiogel ag y gallant fod bob tro. Mae polisi diogelu ar waith ac mae'r staff wedi derbyn yr hyfforddiant hwn. Aeth y staff ar hyfforddiant chwythu’r chwiban a diogelu a chawsom wybod yr adroddir am unrhyw gamdriniaeth ar unwaith i'r rheolwr a bod protocol a gweithdrefn ar waith i'w dilyn. Gwnaethom sylwi ar wybodaeth a drafodwyd mewn sesiwn goruchwylio staff a ddylai fod wedi cael ei chyfeirio at y gwasanaeth diogelu. Trafodwyd hyn â'r rheolwyr. Gwelsom asesiadau risg a chynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol manwl ar waith i'r staff eu dilyn i sicrhau diogelwch pobl. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom bedwar person yn eistedd yn y lolfa heb unrhyw gefnogaeth. Dywedwyd wrthym fod angen cefnogaeth unigol ar ddau berson ar bob adeg. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwnaeth aelod o staff o wasanaeth arall gyrraedd y cartref i ddarparu cefnogaeth unigol i berson. Roedd hi'n amlwg nad oedd yn gyfarwydd ag ef na'i anghenion. Gwelsom yn ei gynllun gofal fod y person hwn yn ymateb orau i "dîm staff cyfeillgar a sefydlog". Trafodwyd hyn â'r rheolwyr. Nid oedd y cynlluniau gofal yn cynnwys gwybodaeth am Ddiogelu rhag Colli Rhyddid (DOLS) ac eithrio ar gyfer y cais neu ddogfennau cysylltiedig. Dylai'r wybodaeth bwysig hon gael ei chynnwys yn nogfennau pobl i'r staff allu darllen a deall yr hyn mae hyn yn ei olygu i'r person a'r gefnogaeth mae ei hangen arnynt. Ar ôl yr arolygiad, gwnaethom dderbyn cynllun gweithredu manwl ynghylch gwelliannau ac amserlenni. Ar yr achlysur hwn, nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio oherwydd nid oedd unrhyw dystiolaeth o effaith ar bobl. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod yr arolygiad nesaf. Efallai nad yw pobl yn cael eu goruchwylio'n briodol gan y staff bob amser i sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach.

## 2. Gofal a Chymorth

### Crynodeb

Mae’r staff yn ymwybodol o anghenion newidiol pobl; fodd bynnag, nid oedd dogfennau'r cynllun gofal wedi'u diweddaru i adlewyrchu hyn.  Gwelsom fod anghenion iechyd pobl yn cael eu cydnabod a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd i gael mwy o gyngor ac arweiniad gan weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol.

### Ein canfyddiadau

Mae anghenion a hoffterau unigol pobl yn cael eu cydnabod a'u cefnogi. Roedd cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y person ar waith i bobl gan hysbysu'r staff am y gefnogaeth roedd ei hangen a'i heisiau ar bobl. Roedd gwybodaeth yn cynnwys yr hyn sy'n gwneud diwrnod da a diwrnod gwael i’r person. Gwelsom dystiolaeth o adolygiadau unigol sy'n canolbwyntio ar y person a gynhaliwyd. Roeddent wedi creu gwahoddiadau wedi'u personoleiddio i'w hanfon at y bobl roeddent am fod yn bresennol yn eu hadolygiad. Cafodd canlyniadau eu gosod a gwelsom dystiolaeth bod y rhai o’r rhain wedi cael eu cyflawni, er enghraifft, mynd ar wyliau, mynd i'r dafarn a chefnogi tîm chwaraeon arbennig. Roedd y cofnodion dyddiol y gwnaethom eu gweld hefyd yn dangos tystiolaeth eu bod yn cael eu cefnogi i gymryd rhan yn eu gweithgareddau dewisol. Dywedodd pobl wrthym am y pethau roeddent yn hoffi eu gwneud a dywedodd y staff y gwnaethom siarad â hwy hefyd am y pethau mae pobl yn eu hoffi a'r pethau nad ydynt yn eu hoffi a'r hynna  oedd yn bwysig iddynt. Mae pobl yn derbyn gofal sy'n canolbwyntio ar y person.

Efallai nad yw pobl bob tro'n derbyn y gefnogaeth briodol pan fydd eu hanghenion yn newid. Dywedodd rheolwyr a staff wrthym fod anghenion person wedi newid yn sylweddol. Gwelsom dystiolaeth o apwyntiadau yr aethpwyd iddynt a bod y cyfeiriadau perthnasol wedi cael eu gwneud i gael cyngor ac arweiniad gan weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol eraill.  Ni welsom fod y newidiadau hyn wedi cael eu cofnodi yng nghynllun gofal y person na chymorth ymddygiad cadarnhaol ac felly nid oedd yr wybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol i'r staff ei dilyn. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion dyddiol a oedd yn dangos, am gyfnod o wyth niwrnod, nad oedd anghenion hylendid personol y person wedi cael eu diwallu. Mae hyn yn fater difrifol ac fe'i trafodwyd â'r rheolwyr. Gwnaethom sylwi hefyd nad oedd y siartiau hylif wedi cael eu cwblhau'n gywir gan staff bob tro. Roedd y staff yn monitro ac yn cofnodi tymer/ymddygiad newidiol y person mewn llyfr, fodd bynnag, nid oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ynghylch anghenion newidiol y person. Ar yr achlysur hwn, nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Y rheswm dros hyn yw bod trafodaethau wedi cael eu cynnal â'r unigolyn cyfrifol, yr uwch reolwyr ac yn dilyn yr arolygiad, gwnaethom dderbyn cynllun gweithredu manwl yn nodi'r camau gweithredu yr oedd rheolwyr eisoes wedi'u cymryd a'r bwriad i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod yr arolygiad nesaf. Efallai nad yw pobl bob tro'n derbyn y gofal cywir ar yr adeg gywir os nad yw cynlluniau gofal yn cael eu diweddaru i'r staff allu eu dilyn.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae pobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n dod yn fwyfwy cartrefol.

### Ein canfyddiadau

Gofelir am y bobl mewn amgylchedd pleserus, personol ac wedi'i gynnal yn dda. Mae'r cartref yn darparu lle cyfforddus i bobl fyw ynddo. Dangosodd dau berson eu hystafelloedd gwely i ni a oedd wedi'u personoleiddio ac a oedd yn adlewyrchu eu chwaeth a'u diddordebau unigol. Roedd llawer o luniau o'u teulu a'u ffrindiau. Gwelsom dystiolaeth bod pobl wedi gofyn am y lliwiau a'r dyluniadau yr hoffent o ran bleindiau, llenni a'r lliwiau ar y wal i'w cartref. Dywedodd aelod o staff hefyd fod mwy o addurniadau yn y cartref nawr na fu yno o'r blaen. Roedd trefniadau ar waith i'r lolfa gymunedol gael ei newid yn lolfa/ystafell fwyta ac i'r ystafell fwyta hefyd fod yn lolfa/ystafell fwyta. Dywedodd y dirprwy reolwr wrthym y byddai hyn yn rhoi mwy o ddewis i bobl o ran ble i dreulio amser mewn mannau cymunedol gwahanol. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom weithwyr adeiladu'n trafod yr hyn yr oedd ei angen a sut orau i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r ystafelloedd hyn. Dywedodd y dirprwy reolwr wrthym fod cynlluniau i adnewyddu'r ystafell ymolchi a'r cyfleusterau toiled cymunedol a symud cypyrddau storio cyffredinol o'r fan hon. Aethpwyd i'r afael â'r problemau gyda'r goleuadau yn yr ystafell feddyginiaeth a'r ystafell gawod wrth ddychwelyd am ail ymweliad. Mae pobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n gwella er mwyn uchafu eu hannibyniaeth a'u dewisiadau.

Mae pobl yn byw mewn cartref diogel a glân. Mae polisi rheoli heintiau ar waith. Gwnaethom sylwi nad oedd bin yn yr ystafell ymolchi gymunedol er mwyn gwaredu gwastraff. Wrth i ni ailymweld â'r gwasanaeth, gwelsom fod bin wedi cael ei brynu. Dywedodd aelod o staff wrthym am bwysigrwydd cadw'r cartref yn lân, gan ddefnyddio cyfarpar diogelu personol megis menig a ffedogau a chynnal hylendid dwylo da. Gwelsom fod hylif golchi dwylo a thywelion papur/sychwyr dwylo ar gael i bobl sy'n byw yn y cartref a'r staff. Mae'r staff yn defnyddio mopiau a bwcedi lliwiau gwahanol i lanhau mannau gwahanol o'r cartref a defnyddir bagiau lliwiau gwahanol i olchi eitemau neu waredu gwastraff. Diogelir pobl rhag risgiau heintiau.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae’r staff yn eglur am eu rolau a’u cyfrifoldebau ond efallai nad ydynt bob tro'n gweithio'n dda fel tîm.

### Ein canfyddiadau

Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael eu diogelu gan brosesau recriwtio diogel a bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r staff. Gwelsom ffeiliau a oedd yn dangos bod system gadarn ar waith. Roedd archwiliadau ffeiliau staff hefyd wedi cael eu cynnal a chanfuwyd unrhyw anghysondebau. Gofynnwyd i'r staff ddarparu cyfrif llawn o'u hanes cyflogaeth. Dywedodd y staff wrthym am sesiynau ymsefydlu a'r hyfforddiant roeddent wedi'i gwblhau. Roedd uwch-aelod o staff wedi cwblhau ei hyfforddiant rheoli'n ddiweddar. Dywedodd un aelod o staff ei fod wedi derbyn digon o hyfforddiant i wneud ei swydd a'i fod wedi bod ar hyfforddiant iechyd meddwl a hyfforddiant cynllunio sy'n canolbwyntio ar y person. Dywedodd un arall ei fod wedi bod ar sesiwn hyfforddiant tair awr ar iechyd meddwl ac anableddau dysgu a oedd yn "dda" a'i fod wedi dysgu am sgitsoffrenia, pryder ac iselder. Mae pobl yn elwa ar dderbyn gwasanaeth sydd ag ymagwedd ragweithiol at recriwtio, dysgu a datblygu staff.

Efallai nad yw pobl bob tro'n cael eu cefnogi gan staff sy'n cyfathrebu'n effeithiol neu sy'n gweithio'n dda fel tîm. Mae gweledigaeth, gwerthoedd a diben y gwasanaeth yn glir ac mae'r datganiad o ddiben a'r canllaw defnyddwyr y gwasanaeth yn nodi'r hyn y gall pobl ei ddisgwyl wrth fyw yn Nhŷ Llarwydden. Penodwyd rheolwr newydd i oruchwylio rheoli'r gwasanaeth ac roedd eisoes yn gweithio'n agos gyda'r dirprwy reolwr i wneud nifer o welliannau i'r gwasanaeth. Ar ein hymweliad, roedd dau arweinydd tîm, dau weithiwr allweddol a staff cymorth yn cael eu cyflogi i weithio yn y cartref. Roedd y staff y gwnaethom siarad â hwy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi fwyaf gan arweinwyr tîm neu'r rheolwyr. Canfuom fod tri thîm ar wahân yn gweithio yn y cartref. Dywedodd y staff wrthym am eu rolau ac roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o fewn eu timau eu hunain. Nid oedd hyn bob tro'n sicrhau cysondeb na dilyniant gofal a chefnogaeth i'r bobl sy'n byw yn y cartref. Gwelsom fod sesiynau goruchwylio rheolaidd yn cael eu cynnal gyda’r staff a ddywedodd wrthym fod sesiynau goruchwylio'n "ddefnyddiol i ddweud beth rydych am ei ddweud" ac i "fynegi eich hun". Roedd y staff yn gallu lleisio pryderon, ond nid oedd camau gweithredu bob tro'n cael eu cofnodi mewn ymateb i hyn. Roedd cofnodion goruchwyliaeth staff hefyd yn nodi problemau ynghylch arferion, gwrthdaro a diwylliant ymhlith y staff. Gwnaethom edrych ar gofnodion y cyfarfodydd tîm a oedd hefyd yn dangos tystiolaeth o broblemau ynghylch ymddygiad staff a'r staff ddim yn gweithio gyda'i gilydd yn dda bob tro er lles pobl. Trafodwyd hyn â'r rheolwr a'r dirprwy reolwr a ddywedodd wrthym am eu cynlluniau i wella hyn. Dywedodd rheolwyr a staff wrthym fod llawer o newidiadau wedi cael eu gwneud. Dywedodd un aelod o staff wrthym fod "gwelliannau'n cael eu gwneud" a bod y gwasanaeth yn "mynd yn y cyfeiriad iawn". Ar ôl yr arolygiad, gwnaethom dderbyn cynllun gweithredu manwl i fynd i'r afael â meysydd lle mae angen gwella a nodir yn yr adroddiad hwn. Felly, nid ydym yn cyflwyno hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio y tro hwn oherwydd diffyg tystiolaeth o effaith ar bobl. Caiff y problemau hyn eu hystyried yn arolygiad nesaf y gwasanaeth. Efallai nad yw pobl yn derbyn gwasanaeth cyson os nad yw'r staff yn gweithio fel tîm er eu lles.

## 5. Gwelliannau y mae eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth hwn ers cofrestru.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rhaid diweddaru cynlluniau gofal a dogfennau cysylltiedig pan fydd angen newid ar berson i sicrhau bod gan y staff yr wybodaeth berthnasol.

Dylai'r staff weithio gyda'i gilydd fel tîm er lles y bobl sy'n byw yn y cartref.

Rhaid i gofnodion goruchwylio gynnwys unrhyw gamau gweithredu sydd i'w cymryd o ganlyniad i'r trafodaethau a gynhaliwyd.

Dylai gwybodaeth am Ddiogelu rhag Colli Rhyddid gael ei chynnwys yng nghynlluniau gofal pobl fel bod y staff yn ymwybodol o'r hyn mae hyn yn ei olygu i bobl a'r gefnogaeth mae ei hangen arnynt.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn ar ôl cofrestru oedd hwn. Gwnaethom ymweld ar 13 Rhagfyr 2017 rhwng 10.00 a 16.00 ac ar 19 Rhagfyr 2017 rhwng 9.00 a 14.30.
.
Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

Gwnaethom gwrdd â'r holl bobl sy'n byw yn y cartref a siarad yn breifat â dau ohonynt.

Cynhaliwyd trafodaethau â'r rheolwr, y dirprwy reolwr, yr arweinydd tîm a'r staff cymorth.

Gwnaethom roi holiaduron i bobl sy'n byw yn y cartref a dychwelwyd pedwar i ni. Gwnaethom hefyd anfon holiaduron at berthnasau a gweithwyr proffesiynol.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion; gwnaethom ganolbwyntio ar ddau gynllun gofal a dogfennau cysylltiedig, cofnodion hyfforddiant staff, amserlen, dwy ffeil staff, sampl o gofnodion goruchwylio, datganiad o ddiben, canllaw defnyddiwr gwasanaeth a pholisi rheoli heintiau.

Gwnaethom ddarparu adborth yn ystod yr arolygiad a hefyd roi adborth i'r rheolwr a'r dirprwy reolwr ar ddiwedd ein hail ymweliad.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Cartref gofal i oedolion – Iau |
| Person cofrestredig | Mental Health Care (Highfield Park) Ltd |
| Rheolwr(wyr) cofrestredig | Dim rheolwr cofrestredig |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 5 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gael ei gofrestru |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 13 Rhagfyr 2017 |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Saesneg |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at hyn |
| Gwybodaeth ychwanegol: | |